

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg

Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Disgrifiad Swydd

Job Title:	Cydlynnydd Gwirfoddolwyr
Reports to	Adrodd i: Rheolwr Gweithrediadau
Location:	Lleoliad: Banc Bwyd Caerdydd Presenoldeb rheolaidd mewn sesiynau banc bwyd, gan gynnwys rhai nosweithiau a phenwythnosau (tua dwywaith y mis), gyda threfniadau gweithio hyblyg ar waith i ddarparu ar gyfer hyn. Bydd gweithio gartref ar gael.
Contract terms:	Amodau'r contract: Parhaol, llawn amser (35 awr yr wythnos) Cyfnod rhybudd: chwe wythnos
Cyflog	£27,950

Trosolwg o Fanc Bwyd Caerdydd

Agorodd BancBwyd Caerdydd yn 2009 ac mae'n rhan o rwydwaith Trussell – rhwydwaith cenedlaethol o fanciau bwyd sydd gyda'i gilydd yn darparu bwyd brys a chefnogaeth i bobl sydd yn sownd mewn tlodi ac yn ymgyrchu dros newid i roi terfyn ar yr angen am fanciau bwyd yn y DU. Ein gweledigaeth yw nad oes neb yng Nghaerdydd yn mynd yn llwglyd.

Diben y Swydd: Cydlynnydd Gwirfoddolwyr

Mae'r Cydlynnydd Gwirfoddolwyr yn arwain y gwaith o redeg rhaglen wirfoddoli Banc Bwyd Caerdydd, gan sicrhau bod yr holl wirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion y sefydliad ac yn cefnogi cyflawni ein gweledigaeth. Mae'r rôl hon yn chwarae rhan allweddol wrth feithrin profiad gwirfoddol cadarnhaol, gan sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso. Mae'r swydd Cydlynnydd Gwirfoddolwyr yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu cymorth i'r tîm staff ac arweinwyr tîm gwirfoddol gan eu galluogi i gefnogi gwirfoddolwyr i gyflawni eu rôl a sicrhau eu bod yn dilyn arferion gorau a gweithdrefnau banc bwyd y cytunwyd arnynt.

Cyfrifoldebau allweddol:

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth wirfoddoli ar gyfer rhaglen wirfoddoli Banc Bwyd Caerdydd gyda'r Tîm Arweinyddiaeth

- Arwain ar weithredu strategaeth wirfoddoli Banc Bwyd Caerdydd a sicrhau bod polisïau a phrosesau ar waith i gefnogi gwirfoddoli a chyfleu'r rhain i wirfoddolwyr.
- Gweithio ar y cyd â'r tîm staff i fynychu sesiynau'r Ganolfan Ddosbarthu i gefnogi goruchwyliaeth sesiwn, darparu adborth a chefnogi unrhyw welliannau sydd eu hangen.
- Gweithio gyda'r tîm staff ac arweinwyr tîm gwirfoddol i nodi anghenion gwirfoddoli i ddyrannu adnoddau gwirfoddoli lle bo angen.
- Gweithio gyda'r tîm staff ehangach i arwain y gwaith o recriwtio, dethol, sgrinio, sefydlu a hyfforddiant craidd gwirfoddolwyr, gan sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus ledled yr elusen, gan gynnwys y meysydd allweddol canlynol:
 - Cynorthwyo i gynllunio a rhedeg ymgyrchoedd bwyd rheolaidd a blynyddol, gyda ffocws penodol ar amserlennu gwirfoddolwyr.
 - Cefnogi cydlynu ceisiadau gwirfoddolwyr corfforaethol a chydweithio â'r tîm staff i baru argaeledd ag anghenion sefydliadol.
 - Cefnogi mentrau'r elusen sy'n ymgysylltu unigolion â phrofiad byw.
- Cefnogi mentrau'r elusen sy'n ymgysylltu unigolion â phrofiad byw.
- Arwain ar wella a datblygiad gwirfoddolwyr parhaus; gan gynnwys nodi a chyflwyno neu gyd-gyflwyno hyfforddiant penodol i rôl.
- Sicrhau bod yr holl fanylion sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr yn cael eu cofnodi (e.e. manylion personol, cofnodion sefydlu a hyfforddiant), yn cael eu cadw'n gyfredol a'u cadw'n ddiogel yn unol â gofynion sefydliadol a chanllawiau diogelu data
- Creu proses adrodd rheolaidd ar gyfer gweithgareddau gwirfoddoli i fonitro effaith gweithgareddau gwirfoddoli ar draws y banc bwyd.
- Cyfathrebu ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr i roi adborth ar effaith eu rôl wrth gyflawni ein gweledigaeth. Gweithio gyda'r Swyddog Cyfathrebu Strategol i gydlynu ac amserlennu gohebiaeth gwirfoddolwyr.
- Ymgysylltu ag adnoddau a rhwydweithiau gwirfoddoli Trussell a chysylltu â rhwydweithiau gwirfoddoli eraill yn y Trydydd Sector i ddatblygu rhaglen wirfoddoli Banc Bwyd Caerdydd i gefnogi datblygiad a chyflwyno arfer gorau yn barhaus
- Cynnal archwiliad sgiliau gwirfoddolwyr blynyddol a chofnodi manylion rhaglen wirfoddoli Banc Bwyd yn ddiogel, gan sicrhau bod yr holl wirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion y sefydliad ac yn cefnogi cyflawni ein gweledigaeth.
- Mae'r rôl hon yn chwarae rhan allweddol wrth feithrin profiad gwirfoddol cadarnhaol, gan sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.
- Mae'r swydd Cydlynnydd Gwirfoddolwyr yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu cymorth i'r tîm staff ac arweinwyr tîm gwirfoddol gan eu galluogi i gefnogi gwirfoddolwyr i gyflawni eu rôl a sicrhau eu bod yn dilyn arferion gorau a gweithdrefnau banc bwyd y cytunwyd arnynt.

Cyffredinol

- Meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys staff a gwirfoddolwyr, gan ddangos ein gwerthoedd craidd sef caredigrwydd, tegwch, diolchgarwch, a pharch bob amser
- Cadw at bolisïau, codau ymddygiad ac arferion sefydliadol
- Cefnogi a hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y gweithle
- Mynychu cyfarfodydd tîm rheolaidd, sesiynau goruchwyllo ac adolygiadau perfformiad

- Ymgymryd â gweithgareddau dysgu a datblygu fel y bo'n briodol ac fel y cytunwyd arnynt â rheolwr llinell y swydd
- Hyblygrwydd i gyflawni dyletswyddau cysylltiedig eraill a allai godi, datblygu neu gael eu neilltuo yn unol â chylch gwaith eang y swydd

Manyleb Person:

Meini Prawf Hanfodol

Profiad a Gwybodaeth

- Profiad o recriwtio, rheoli neu gydlynu gwirfoddolwyr.
- Gwybodaeth am arferion gorau mewn rhaglenni gwirfoddoli.
- Profiad o weithio gyda grwpiau amrywiol o bobl, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd bregus.
- Dealltwriaeth o egwyddorion diogelu a diogelu data.

Sgiliau a Galluoedd

- Sgiliau pobl rhagorol ac yn gallu ymgysylltu, cefnogi ac ysgogi gwirfoddolwyr.
- Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm, gan ddangos menter a sgiliau datrys problemau.
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol gyda'r gallu i adeiladu perthnasoedd cadarnhaol gyda gwirfoddolwyr, staff a phartneriaid allanol.
- Profiad cryf o ddefnyddio systemau TG, gan gynnwys Microsoft Office, Google Suite, adnoddau cyfarfodydd ar-lein a chronfeydd data rheoli gwirfoddolwyr.
- Sgiliau cyfathrebu effeithiol – ysgrifenedig a llafar, gyda'r gallu i ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid.
- Sgiliau trefnu cryf – yn gallu cynllunio, blaenoriaethu a rheoli nifer o dasgau yn effeithiol.

Gofynion Eraill

- Trwydded yrru lawn y DU a mynediad at gerbyd eich hun – yn hanfodol ar gyfer mynychu ein gwahanol sesiynau banc bwyd.
- Y gallu i weithio'n hyblyg, gan gynnwys nosweithiau neu benwythnosau achlysurol pan fo angen.
- Ymrwymiad i werthoedd, cenhadaeth a gweledigaeth Banc Bwyd Caerdydd o sicrhau nad oes unrhyw un yng Nghaerdydd yn mynd yn llwglyd.

Version control	
JD last reviewed and updated	December 2025
Salary last reviewed and benchmarked	